

Prosesau Rheoli Alergedd Bwyd Sodexo

Cwestiynau a Ofynnir yn Aml

1. C. Rwy'n credu bod gan fy mhlentyn/person ifanc alergedd i fwydydd penodol ond dydw i ddim yn siŵr. Beth ddylwn i ei ysgrifennu ar y ffurflen?

A. Os ydych chi'n meddwl bod gan eich plentyn/person ifanc alergedd bwyd yna rydym yn eich cyngori'n gryf i ofyn am gyngor gweithiwr proffesiynol meddygol neu faethol i gael mwy o wybodaeth cyn gynted â phosibl. Os ydych chi'n dweud wrthym fod gan eich plentyn/person ifanc alergedd, ond nid oes gennych asesiad eto o'u cyflwr gan feddyg neu ddietygydd, bydd eu diet yn cael ei gyfyngu i fwydydd y mae ein partner arlwygo Sodexo yn credu eu bod yn annhebygol o achosi unrhyw adwaith alergaidd. Unwaith y byddwch wedi gallu darparu asesiad meddyg neu ddietygydd o gyflwr eich plentyn/person ifanc, gallwn gynnig bwydlen ehangach iddynt sy'n briodol i'w hanghenion.

2. C. Pam fod angen i chi cael asesiad meddyg/dietegydd cyn i chi fwydo fy mhlentyn/person ifanc?

A. Gall alergenau bwyd achosi problemau iechyd gydol oes ac mewn rhai amgylchiadau, achosi marwolaeth. Nid ydym am osod unrhyw blentyn/person ifanc yn y sefyllfa lle gallai eu hiechyd neu eu bywyd fod mewn perygl. Heb asesiad meddyg/dietegydd, ni allwn fod yn sicr ein bod ni'n darparu diet plentyn/person ifanc sy'n briodol i'w hanghenion iechyd.

3. C. Rydw i wedi dweud wrthyfch ar lafar yn barod am yr alergedd bwyd, pam fod angen i mi lenwi ffurflen?

A. Mae angen i ni gadw cofnod ysgrifenedig gyda manylion unrhyw alergeddau bwyd sydd gan eich plentyn/person ifanc fel y gallwn ei rannu mewn argyfwng gyda gweithwyr proffesiynol meddygol. Mae angen i ni hefyd sicrhau ein bod yn rhannu gwybodaeth gywir am alergedd bwyd eich plentyn/person ifanc gyda Sodexo, sef y cwmni sy'n darparu ein harlwygo.

4. C. A all eich partner arlwygo Sodexo addo darparu bwyd sy'n cael ei greu a'i weini mewn amgylchedd 'di-gnau'?

A. Nid all Sodexo ymrwymo i sicrhau y bydd unrhyw sefydliad y mae'n darparu bwyd iddo yn gwbl 'ddi-gnau'. Er nad yw Sodexo yn defnyddio cnau daear na chnau coeden fel cynhwysion o fewn ei safleoedd (oni ofynnir iddynt yn benodol i wneud hynny), mae rhai o'r cynhwysion hynny yn dod o gynhyrchwyr sydd wedi gosod label 'yn cynnwys olion cnau daear neu gnau coed' arnynt. Mae hyn yn golygu na ellir honni bod bwyd sy'n cael ei gynhyrchu gan ddefnyddio'r cynhwysion hyn yn 'ddi-gnau'.

5. C. Mae fy mhlentyn/person ifanc yn dod â chinio pecyn. Pam fod angen i mi gwblhau'r ffurflen?

A. Mewn rhai sefydliadau addysgol, bydd plant/pobl ifanc sy'n bwyta prydau a baratoir gan ein harlwywyr yn eistedd gyda'r rhai sy'n bwyta cinio pecyn. Gall rhai plant/pobl ifanc ag alergeddau bwyd ddiodef adwaith drwy ddod i gysylltiad â, neu fod yn agos at y cynhwysyn penodol y mae ganddynt alergedd iddo. Trwy ddeall pa blentyn/person ifanc sydd ag alergedd bwyd, gallwn gyfyngu ar y posibilrwydd o ddiogyddiad.

6. C. Darparu a rhannu gwybodaeth feddygol am fy mhlentyn/person ifanc gyda'r partner arlwygo Sodexo.

A. Rhaid i Sodexo geisio caniatâd rhieni trwy'r Ysgol i dderbyn y data am blant ag alergeddau er mwyn darparu prydau bwyd wedi'u teilwra i'w hanghenion dietegol. Mae canllawiau'r Asiantaeth Safonau Bwyd (FSA) yn argymhell arddangos lluniau o'r disgyblion sydd ag alergeddau mewn ceginau ac ardaloedd paratoi bwyd lle bydd ystod eang o bobl yn eu gweld.

Mae cyfreithiau diogelu data yn darparu y gellir darparu data personol sensitif os yw'r data hwnnw'n ymwneud â chyflwr corfforol neu feddyliol y testun data ac yn hanfodol ar gyfer adnabod neu adolygu cyfle cyfartal neu driniaeth pobl â gwahanol gyflyrau o iechyd corfforol neu feddyliol er mwyn hyrwyddo cydraddoldeb o'r fath.

Mae hyn yn golygu y gellir prosesu, neu ddatgelu, data sy'n ymwneud ag alergeddau disgyblion, er mwyn monitro eu triniaeth fel cydraddolion yng nghyd-destun ehangach yr ysgol. Mae Sodexo yn gofyn am y wybodaeth am alergeddau disgyblion er mwyn eu cadw'n ddiogel ac yn iach ac yn ail, i leihau neu ddileu unrhyw wahaniaethau yn nhriniaeth ac amgylchedd ar gyfer disgyblion ag alergeddau.

Mae o fudd i'r disgyblion perthnasol fod Sodexo yn ymwybodol o'u hanghenion. Felly nid oes rheswm dros ddal gafael ar y data, gan y byddai dal gafael ar y data yn arwain at driniaeth anghyfartal weithredol a fyddai'n tynnu sylw at ddisgyblion ag alergeddau (drwy weini taten bob blaen yn unig) a drafftiwyd y SDD i atal anghydraddoldeb o'r fath rhag digwydd.